# YR ATODLENNI

## ATODLEN 3

Rheoliad 2(1)

### DIFFINIAD O GYFRAITH BWYD BERTHNASOL

ystyr "cyfraith bwyd berthnasol" ("*relevant food law*") yw—

(a) cyfraith bwyd i'r graddau y mae'n gymwys o ran bwyd, ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â—

(i) rheoli gweddillion meddyginiaethau milfeddygol a sylweddau eraill o dan Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Gweddillion Uchaf) 1997(**1**),

(ii) rheoli gweddillion plaleiddiaid o dan Reoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Uchaf Gweddillion mewn Cnydau, Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid) (Cymru a Lloegr) 1999(**2**),

(iii) cymhwyso rheolau a osodir ar gyfer gwarchod dynodiadau tarddiad a dynodiadau daearyddol cynhyrchion amaethyddol a bwydydd yn Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2081/92 ar warchod dynodiadau daearyddol a dynodiadau tarddiad cynhyrchion amaethyddol a bwydydd(**3**) fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan y Ddeddf sy'n ymwneud ag amodau ymaelodi'r Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithiwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia a'r addasiadau i'r Cytuniadau y seilir yr Undeb Ewropeaidd arnynt(**4**),

(iv) cymhwyso'r rheolau a osodir ar gyfer tystysgrifau Cymunedol o natur benodol y gellir eu cael ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a bwydydd penodol yn Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2082/92 ar dystysgrifau o natur benodol ar gyfer cynhychion amaethyddol a bwydydd (**5**) fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan y Ddeddf sy'n ymwneud ag amodau ymaelodi'r Weriniaeth Tsiec, Gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithiwania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia a Gweriniaeth Slofacia a'r addasiadau i'r Cytuniadau y seilir yr Undeb Ewropeaidd arnynt,

(v) rheoli cynhyrchion organig o dan Reoliadau Cynhyrchion Organig (Mewnforio o Drydydd Gwledydd) 2003(**6**) a Rheoliadau Cynhyrchion Organig 2004(**7**),

(vi) rheoli labelu cig eidion o dan Reoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001(**8**), a

(vii) rheoli mewnforio a masnachu o ran cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid—

(**1**) O.S. 1997/1729, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/3590 ac O.S. 2004/147.
(**2**) O.S. 1999/3483, a ddiwygiwyd gan O.S. 2001/1113, O.S. 2001/2420, O.S. 2001/3834, O.S. 2002/1767, O.S. 2002/2723, 2003/661, 2003/2591, 2004/676, 2004/1393, 2004/2559, 2005/432 a 2005/1725.
(**3**) OJ No. L208, 24.7.92, t.1.
(**4**) OJ No. L236, 23.9.2003, t.346.
(**5**) OJ No. L208, 24.7.92, t.9.
(**6**) O.S. 2003/2821.
(**7**) O.S. 2004/1604, a ddiwygiwyd gan O.S. 2005/2003.
(**8**) O.S. 2001/1360 (Cy.88).

(aa) o dan Reoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) 1996(**9**), ac eithrio gweithredu a gorfodi rheoliad 3 o'r Rheoliadau gan yr Asiantaeth, a

(bb) o dan Reoliadau Cynhyrchion sy'n dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2005(**10**)), ac eithrio gweithredu a gorfodi rheoliad 5 o'r Rheoliadau gan yr Asiantaeth; a

(b) cyfraith bwyd i'r graddau y mae'n gymwys o ran deunyddiau a gwrthrychau mewn cysylltiad â bwyd ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoli deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd o dan Reoliadau Offer Crochenwaith (Diogelwch) 1988(**11**)); ac

(c) cyfraith bwyd i'r graddau y mae'n ymwneud â rheoli cynhyrchu sylfaenol a'r gweithrediadau cysylltiedig hynny a restrir ym mharagraff 1 o Ran AI o Atodlen I i Reoliadau 852/2004 o dan Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.

(**9**) O.S. 1996/3124, diwygiwyd gan O.S. 1997/3023, O.S. 1998/994, O.S. 1999/683, O.S. 2000/656, O.S. 2000/1885 (Cy.131), O.S. 2000/2257 (Cy.150), O.S. 2001/1660 (Cy.119), O.S. 2001/2198 (Cy.158), O.S. 2001/2219 (Cy.159), O.S. 2002/47 (Cy.6), O.S 2002/129 (Cy.17), O.S. 2003/3229 (Cy.309) ac O.S. 2004/1430 (Cy.144).

(**10**) O.S. 2005/666 (Cy.56).

(**11**) O.S. 1988/1647.